***Yn Y Pinc***

*Awn ato'n ceisio cysur grym y fflam;*
*Rhydd Graham Floyd ystyr*
*I'r benod, defod difyr,*
*Llonydd o'r cerydd a'r cur.*

*Dyddiau'n gweld byd yn dioddef - yn galw*
*Mewn gwaeledd am dangnef,*
*Caf heddiw braint cyfaddef*
*I'n llyw, bu'n dryw i Bendref.*

*I ranu rin yr oenig - orgraff lon*
*Â'r gair "Floyd" yw'r cynig;*
*Daw sibrwd y brwd i'r brig:*
*Hel ystyr mewn bag pastig.*

*Teilwng o'r apostolion - i'r Beibl*
*A'r bobl yn brydlon;*
*Ei gŵys a dorai'n gyson*
*Â hwyl. Gwas anwyl Lôn Swon.*

*Mynwesol gymwynaswr - 'da'r mwynaf,*
*Ac eithaf bregethwr!*
*Sail coeden, derwen dŵr;*
*Hen ben o anibynwr.*

*Digon ei weinidogaeth. Diolchwn*
*I'r hwn drodd o'r Wendraeth*
*I dori cadwyni'r caeth*
*A seinio cân gwasanaeth.*